

YR AELOD CABINET DROS ADFYWIO, HAMDDEN, DIWYLLIANT A THWRISTIAETH

DYDD IAU 19EG HYDREF 2023

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: H.A.L. Evans (Aelod Cabinet)

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:

M. Bull - Rheolwr Busnes & Cyllid Datblygu Economaidd
R. Phillips - Rheolwr Rhanbarthol Datblygu Economaidd
T. Bufton – Rheolwr Adfywio Canol Trefi
H. Barrett - Cydlynnydd Prosiect & Cyllid
M. Pemberton - Cydlynnydd Rhaglenni Gwledig
M. Evans Thomas – Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Cyfarfod o Bell : 2.00 pm - 2.15 pm

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD PENDERFYN- IADAU A GYNHALIWYD AR 27AIN MEDI 2023

PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023, gan ei fod yn gywir.

3. CYLLID REFENIW DEG TREF (CRONFA REFENIW)

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad yn rhoi manylion ar 6 cais yn gofyn am gymorth ariannol gan Gronfa Refeniw y 10 Tref, fel a ganlyn:-

Cyngor Tref Cwmaman	Cais am grant o £19,250
Cyngor Tref Hendy-gwyn ar Daf	Cais am grant o £20,000
Cyngor Tref Llanymddyfri	Cais am grant o £19,970
Cyngor Tref Cydweli	Cais am grant o £10,000
Ymddiriedolaeth Hen Ysgol Llanybydder	Cais am grant o £20,000
Cyngor Tref Sanclêr	Cais am grant o £20,000

Roedd manylion llawn ynghylch y prosiectau arfaethedig wedi'u rhestru yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD dyfarnu'r grant y gofynnwyd amdano i'r 6 cais a gyflwynwyd am gyllid o'r Rhaglen Deg Tref (y Gronfa Refeniw), fel y manylir uchod, yn unol â'r telerau ac amodau fel y nodir yn yr adroddiad.

4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr

adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.

5. CYMUNEDAU MENTRUS

Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, roedd prawf budd y cyhoedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran cynnal tryloywder ac atebolrwydd oherwydd gallai datgelu'r wybodaeth danseilio sefyllfa'r sefydliadau dan sylw mewn perthynas â sefydliadau eraill sy'n gweithredu yn yr un maes gweithgaredd.

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried cais a gyflwynwyd am gyllid gan y Gronfa Cymunedau Mentrus a oedd yn rhan o raglen Arfor II.

PENDERFYNWYD dyfarnu cyllid fel y manylir yn yr adroddiad ac yn unol â'r telerau a'r amodau a nodwyd.

6. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN - CRONFA YNNI ADNEWYDDIADWY BUSNES

Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran cynnal tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r bobl a'r busnesau a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol.

Bu'r Aelod Cabinet ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar bum prosiect a gyflwynwyd am gyllid gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin – Cronfa Ynni Adnewyddadwy Busnes a oedd yn galluogi busnesau i ymgymryd â phrosiectau gwella ynni adnewyddadwy gan arwain at effeithlonrwydd busnes a lleihau carbon.

PENDERFYNWYD dyfarnu cyllid fel y manylir yn yr adroddiad ac yn unol â'r telerau a'r amodau a nodwyd.

7. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN - CRONFA EIDDO GWAG

Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol

neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Yr oedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran cynnal tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o roi'r bobl a'r busnesau a enwir yn yr adroddiad dan anfantais annheg mewn perthynas â'u cystadleuwyr masnachol

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried adroddiad yn manylu gais am gyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin - Cronfa Eiddo Gwag

PENDERFYNWYD dyfarnu cyllid fel y manylir yn yr adroddiad ac yn unol â'r telerau a'r amodau a nodwyd.

AELOD O'R CABINET

DYDDIAD